Diddymiad eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig

Cyhoeddwyd: Chwefror 2011

Er mwyn helpu symleiddio'r system bensiynau a phenderfyniadau am gynilion ymddeoliad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu diddymu eithio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig.

Ar hyn o bryd, mae rhai o gynlluniau pensiwn wedi eu sefydlu i ddarparu pensiwn sy'n disodli holl, neu ran o'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (hefyd a elwir yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth). Mae hyn yn cynnwys rhai o gynlluniau gwaith, cyfranddeiliaid a phersonol. Pan ydych yn ymuno ag un o'r cynlluniau hyn, rydych yn 'eithrio allan' o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Mae dwy ffordd o eithro allan, yn seiliedig ar sut mae'r buddion yn cael eu cyfrifo. Mae rhai cynlluniau gwaith, yn gyffredinol cynlluniau pwrcasu arian neu cyfraniadau diffiniedig, ynghyd â pensiynau personol a chyfranddeiliaid, yn eithrio allan ar **sail cyfraniadau diffiniedig**. Mae cynlluniau gwaith eraill, yn arferol cynlluniau buddion diffiniedig, yn eithrio allan **ar sail yn berthnasol â chyflog**. Ar hyn o bryd mae unigolion sy'n aelodau o gynllun eithrio allan yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is ac/neu yn derbyn rhywfaint o ad-daliadau i mewn i'w cynllun pensiwn.

Beth sy'n digwydd?

Mae'r Llywodraeth yn cynllunio gorffen eithrio allan o'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar sail **cyfraniadau diffiniedig** o 6 Ebrill 2012.

Beth sydd angen i mi wneud?

Os ydych mewn cynllun personol, cyfranddeiliaid, neu bensiwn gwaith sy'n eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig, mae'n bwysig i chi ddarllen y ffeithlen hon er mwyn deall sut bydd y diddymiad yn effeithio arnoch. Os ydych mewn cynllun pensiwn eithrio allan personol neu gyfranddeiliaid dylech ddarllen **adran A**. Os ydych mewn cynllun pensiwn gwaith eithrio allan dylech hefyd ddarllen **adran B**.

Os nad ydych yn siŵr os yw eich cynllun pensiwn wedi eithrio allan, neu ar ba sail, dylech edrych ar eich dogfennau pensiwn neu gysylltu â'ch darparwr pensiwn.

Pa gynlluniau eithrio allan sy'n cael eu heffeithio gan y diddymiad?

- Pensiynau personol
- Pensiynau cyfranddeiliaid
- Pensiynau gwaith eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig

Gall cynlluniau gwaith sy'n eithrio allan ar sail yn berthnasol â chyflog barhau i wneud hynny.

Beth yw'r newidiadau i gynlluniau pensiwn eithrio allan cyfraniadau diffiniedig?

O 6 Ebrill 2012, bydd y newidiadau a gynlluniwyd yn golygu ni allwch ddefnyddio pensiwn wedi eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig (pwrcasu arian) yn lle Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth bellach.

Yn lle hynny byddwch yn dod yn ôl i'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn awtomatig ac yn ddibynnol ar eich enillion, efallai byddwch yn dechrau adeiladu hawliad i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth o'r amser hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion byddwch yn ennill hawliad i'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Efallai bydd yna rhai achosion lle ni fyddwch, er enghraifft os ydych yn gorffen gweithio neu yn ennill llai na'r Terfyn Enillion Isaf.

Pam fod eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig yn cael ei ddiddymu?

Ar hyn o bryd mae Yswiriant Gwladol yn ad-dalu unigolyn a lle fo'n briodol, eu cyflogwr os ydynt wedi eithrio allan, wrth fuddsoddi mewn cynllun

Cyllid & Thollau EM
DWP Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

eithrio allan, i ddarparu buddion yn debyg i'r rhai sy'n cael eu rhoi i fyny yn y Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Fodd bynnag, gall buddion o cynlluniau cyfraniadau diffiniedig amrywio yn dibynnu ar enillion buddsoddiadau a chyfraddau blwydd-daliadau. Mae hyn yn golygu fod hi'n anodd i unigolion ragweld gydag unrhyw sicrwydd p'un ai byddent yn well allan eu byd yn y Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth neu wedi eithrio allan. Er mwyn helpu symleiddio'r system bensiynau a phenderfyniadau am gynilion ymddeoliad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu diddymu eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig.

Faint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth byddaf yn ei gael unwaith fy mod yn ôl yn system y Wladwriaeth?

O 6 Ebrill 2012, yn hytrach na derbyn ad-daliadau o'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol efallai byddwch yn adeiladu hawliad i'r Pensiwn ychwangegol y Wladwriaeth. Am bob blwyddyn rydych yn talu Yswiriant Gwladol ar enillion dros £5,044 y flwyddyn (yn seiliedig ar enillion 2010/11) byddwch yn cael tua £1.60 ychwanegol yr wythnos ar eich Pensiwn y Wladwriaeth pan rydych yn gwneud cais amdano.

Bydd pobl sy'n ennill dros £14,100 y flwyddyn (yn seiliedig ar enillion 2010/11) hefyd â hawl i daliad ychwanegol yn berthnasol ag enillion ond bydd y taliad yn berthnasol ag enillion yn cael ei dynnu'n raddol fel erbyn tua 2030, bydd Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth wedi ei wneud i fyny o swm cyfradd unffurf yn unig.

Fodd bynnag, dylech hefyd fod yn ymwybodol fod y Llywodraeth ar hyn o bryd yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer symleiddio'r system Pensiwn y Wladwriaeth ond nid yw penderfyniadau terfynol wedi eu gwneud eto. Ymhen amser bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi cynigion ar gyfer diwygo Pensiwn y Wladwriaeth.

Bydd y cynigion hyn yn effeithio pensiynwyr sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl cyflwyno'r newidiadau yn unig.

Roeddwn i'n meddwl fod y Llywodraeth yn annog pobl i gynilo mewn pensiynau preifat – pam ydych chi'n atal mi rhag gwneud hyn?

Bydd y newid hwn yn cael gwared o'r opsiwn i bobl ddefnyddio y math hwn o drefniant bensiwn yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Gallwch dal gynilo mewn cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig gwaith, personol neu cyfran-ddeiliaid.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

- Bydd y ffeithlen hon yn eich helpu i ddeall sut bydd diddymiad eithrio allan ar sail cyfraniadau diffiniedig yn effeithio arnoch. Os ydych mewn cynllun pensiwn eithrio allan personol neu gyfran-ddeiliaid dylech hefyd ddarllen **adran A**. Os ydych mewn cynllun pensiwn eithrio allan galwedigaethol dylech hefyd ddarllen **adran B**.

- Dylai eich gweinyddwr cynllun pensiwn neu gyflogwr gysylltu â chi cyn y dyddiad diddymiad er mwyn egluro sut bydd eich cyllun yn gweithredu yn y dyfodol.

- Dylech barhau i adolygu eich sefyllfa pensiwn gan efallai byddwch yn dymuno ystyried dewis mynd yn ôl i system y Wladwriaeth cyn y dyddiad diddymiad.

Cyllid & Tollau EM

DWP Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

Adran A

Cwestiynau ac atebion ar gyfer cyflogedigion mewn cynllun pensiwn eithrio allan neu gynllun pensiwn cyfran-ddeiliaid eithrio allan

Beth mae'n ei olygu i mi?

- O 6 Ebrill 2012, mae'r newidiadau a gynigiwyd yn golygu ni fyddwch yn gallu defnyddio pensiwn personol neu gyfran-ddeiliad yn lle'r Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol bellach.
- Ni fydd y Llywodraeth mwyach yn gwneud ad-daliadau Yswiriant Gwladol i mewn i'ch cynllun pensiwn mewn perthynas ag enillion a dalwyd yn y blynyddoedd treth o 6 Ebrill 2012.
- Gallwch barhau i dalu eich cyfraniadau personol i mewn i'ch cynllun fel arfer.
- Efallai gallwch, yn ddibynnol ar lefel eich enillion, ddechrau adeiladu hawliad i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn ei le.
- Ni fydd y newidiadau yn effeithio ar unrhyw hawliad sydd gennych i Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn y gorfennol neu ddyfodol.

A fydd cyfradd fy nghyfraniadau Yswiriant Gwladol yn newid o ganlyniad y diddymiad?

Na. Fodd bynnag, ni fydd y Llywodraeth mwyach yn talu ad-daliad o gyfaniadau Yswiriant Gwladol i'ch pensiwn personol neu gyfran-ddeiliaid.

Beth fydd yn digwydd i'r ad-daliadau sydd wedi eu talu'n barod i mewn i gynlluniau pensiwn eithrio allan personol a cyfran-ddeiliaid?

Bydd yr arian sydd yn y cynllun yn barod yn aros wedi ei fuddsoddi i ddarparu buddion yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth am y cyfnod oeddech wedi eithrio allan.

Ar hyn o bryd mae'r ad-daliadau ynghyd ag unrhyw elw o fuddsoddiad yn cael eu hadnabod fel "hawliau a ddiogelir". Mae yna gyfyngiadau ar hyn o bryd ar sut gellir ddefnyddio hawliau a ddiogelir, yn ychwanegol i'r cyfyngiadau sy'n gymwys yn gyffredinol i fuddion cynllun pensiwn.

Mae hyn oherwydd eu bwriad yw i ddarparu buddion yn lle'r Pensiwn ychwangeol y Wladwriaeth. Fodd bynnag, o 6 Ebrill 2012 ni fydd y cyfyngiadau hyn yn gymwys bellach a gall buddion cael eu talu yn unol â rheolau'r cynllun pensiwn. Bydd eich darparwr pensiwn yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Mae gennyf gynllun pensiwn ad-daliad yn unig, beth fydd yn digwydd iddo yn y dyfodol?

'Pensiwn Ad-daliad yn unig' yw un ble'r unig gyfraniadau sy'n cael eu talu iddo yw ad-daliadau o gyfraniadau Yswiriant Gwladol diwedd-y-flwyddyn sy'n cael eu talu gan y Llywodraeth yn uniongyrchol i mewn i'r cynllun pensiwn. Yn dilyn diddymiad, ni fydd yr ad-daliadau hyn cael eu gwneud bellach mewn perthynas ag unrhyw enillion a dalwyd yn ystod y blynyddoedd treth o 6 Ebrill 2012. Fodd bynnag, bydd ad-daliadau a dalwyd am blynyddoedd treth cyn 6 Ebrill 2012 yn aros yn y cynllun er mwyn darparu buddion yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth am y cyfnod oeddech wedi eithrio allan. Os ydych yn dymuno gallwch drosglwyddo y hawliau hyn i gynllun pensiwn arall os yw'r cynllun newydd yn barod i'w derbyn.

A allaf wneud taliadau i mewn i fy nghynllun pensiwn personol neu gyfran-ddeiliad ar ôl y dyddiad diddymiad? A fyddaf dal yn cael rhyddhad treth?

Byddwch yn dal yn gallu parhau gwneud taliadau i mewn i'ch pensiwn personol neu gyfran-ddeiliaid, ond ni fyddwch yn derbyn ad-daliad o'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol bellach. Bydd rhyddhad treth dal ar gael i chi ar unrhyw o'ch taliadau eich hyn rydych yn parhau i'w gwneud.

Sut ydw i'n gwybod os dwi wedi defnyddio fy mhensiwn personol/cyfran-ddeiliaid i eithrio allan?

Os ydych wedi defnyddio eich pensiwn personol/cyfran-ddeiliaid i eithrio allan, dylai

manylion fod yn y gwaith papur a anfonwyd gan eich darparwr pensiwn. Er enghraifft, bydd y datganiad blynyddol rydych yn ei dderbyn am eich pensiwn yn rhoi gwybodaeth am ad-daliadau Yswiriant Gwladol a dderbynwyd gan Cyllid a Thollau EM neu manylion hawliau a warchodir. Fel aralll cysylltwch â'ch darparwr pensiwn.

Ble allaf fynd i ddarganfod mwy am fy nghynllun personol / cyfranddeiliaid eithrio allan a'r newidiadau i eithrio allan?

Eich darparwr pensiwn
Bydd eich darparwr yn gallu ateb eich cwestiynau am eich cynllun pensiwn penodol a sut y bydd yn cael ei effeithio gan y newidiadau i eithrio allan.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Gwefan HMRC)
Darganfyddwch mwy o wybodaeth am Yswiriant Gwladol ac eithrio allan.

Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (Gwefan TPAS)
Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau yn sefydliad di-elw sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn ddi-dal ar ystod eang o bensiynau, yn cynnwys cynlluniau'r Wladwriaeth, gwaith, personol a chyfranddeiliaid.

Rhif ffôn Llinell Gymorth: 0845 601 2923

Directgov (gwefan)
Darganfyddwch mwy o wybodaeth am Bensiynau y Wladwriaeth

Cyllid & Tollau EM

DWP Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

Adran B

Cwestiynau ac atebion ar gyfer cyflogedigion mewn cynllun pensiwn gwaith eithrio allan cyfraniadau diffiniedig

Beth mae'n ei olygu i mi?

- Gan eich bod wedi eithrio allan, rydych chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol is ar hyn o bryd. Yn dilyn diddymiad bydd y ddau ohonoch yn talu Yswiriant Gwladol cyfradd safonol. Bydd y cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch yn mynd tuag at adeiladu hawliad i'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.
- Ar hyn o bryd mae eich cyflogwr yn gorfod talu'r gwahaniaeth rhwng y ddau gyfradd o Yswiriant Gwladol i mewn i'ch cynllun pensiwn. Gelwir hyn yn 'daliad isafswm'. Fodd bynnag yn dilyn diddymiad, ni fydd hyn yn digwydd bellach a bydd eich cyflogwr yn talu y gyfradd safonol o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Ar hyn o bryd efallai ydych chi a'ch cyflogwr yn talu mwy na'r taliad isafswm i mewn i'r cynllun pensiwn. Bydd unrhyw gyfraniadau pellach sy'n cael eu talu i mewn i'r cynllun yn parhau i gael eu buddsoddi ar eich rhan a cael eu defnyddio i'ch darparu â buddion pan ydych yn ymddeol.
- Ni fydd y newidiadau yn effeithio ar unrhyw hawliad sydd gennych i Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn y gorfennol neu ddyfodol.

Beth fydd yn digwydd i ad-daliadau Yswiriant Gwladol a taliadau isafswm sydd wedi cael eu talu i mewn i gynllun fy nghyflogwr yn barod?

Bydd yr arian sydd yn y cynllun yn barod yn aros er mwyn darparu buddion yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth am yr amser yr oeddech wedi eithrio allan. Ar hyn o bryd mae ad-daliadau ynghyd a unrhyw elw o fuddsoddiad yn cael eu hadnabod fel "hawliau a ddiogelir". Ar hyn o bryd mae yna gyfyngiadau ar sut gellir defnyddio hawliau a ddiogelir. Mae hyn oherwydd eu bwriad yw i ddarparu buddion yn lle'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, o 6 Ebrill 2012 ni fydd y cyfyngiadau hyn yn gymwys bellach a gall buddion cael eu talu yn unol â rheolau'r cynllun. Bydd eich cynllun pensiwn yn gallu rhoi mwy o fanylion i chi.

A allaf dal dalu i mewn i cynllun pensiwn fy nghyflogwr?

Ni fydd diwedd eithrio allan yn atal chi neu'ch cyflogwr rhag talu i mewn i gynllun pensiwn eich cyflogwr. Fodd bynnag, efallai bydd cyflogwyr a chynlluniau yn gweithredu'r newidiadau mewn ffyrdd gwahanol felly dylech gysylltu a'ch cyflogwr os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut bydd y cynllun yn cael ei redeg ar ôl Ebrill 2012.

Oes rhaid i fy nghyflogwr ddal i redeg cynllun pensiwn gwaith?

Nid oes rhaid i gyflogwyr redeg cynllun pensiwn – maent yn gwneud hyn ar sail gwirfoddol er budd cyflogedigion fel rhan o becyn cyflog a gwobrwyo. Ni fydd y newidiadau yn golygu fod rhaid i'ch cyflogwr stopio rhedeg cynllun pensiwn. Dylech gysylltu a'ch cyflogwr os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut bydd y cynllun yn cael ei redeg ar ôl Ebril 2012.

Ble gallaf fynd i ddarganfod mwy am fy nghynllun pensiwn eithrio allan gwaith a'r newidiadau i eithrio allan?

Eich cyflogwr neu ymddiriedolwyr y cynllun

Bydd eich cyflogwr neu ymddiriedolwyr y cynllun yn gallu ateb eich cwestiynau am sut bydd y cynllun pensiwn yn cael ei redeg ar ôl Ebrill 2012, neu pa cyfraniadau byddwch yn talu tuag at eich pensiwn.

Cyllid & Tollau EM

DWP Department for Work and Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Gwefan HMRC)
Darganfyddwch mwy o wybodaeth am Yswiriant Gwladol ac eithrio allan.

Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS)
Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau yn sefydliad di-elw sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn ddi-dal ar ystod eang o bensiynau, yn cynnwys cynlluniau'r Wladwriaeth, gwaith, personol a chyfranddeiliaid.

Rhif ffôn Llinell Gymorth: 0845 601 2923

Directgov (gwefan)
Darganfyddwch mwy o wybodaeth am Bensiynau y Wladwriaeth

Cyllid & Tollau EM

DWP Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau